

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Rhydymain  
Nos Fawrth, Ionawr 21, 2020 am 7:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cyngorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Karen G. Goswell, Rhun Prys Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol a dymunwyd cyfarchion y flwyddyn newydd. Cydymdeimlwyd â Gerallt Griffith pwy sydd yn yr ysbyty yn cael triniaeth.

**2. Ymddiheuriadau:** Huw A. Evans, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 19, 2019**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 19, 2019**

Eitem 9.b.3. Llythyr (20/11/2019) oddi wrth Meithrinfa Seren Fach yn mynegi pryder gyda chyflymder ceir ac yn awgrymu symud arwydd 30 a'i leoli ochr Y Goedlan. Anfonwyd y llythyr ymlaen i Priffyrdd gan awgrymu cael arwyddion 20 a chael cyfarfod ar y safle. Mae'r llythyr wedi ei anfon ymlaen i Adran Traffig yn Caernarfon oherwydd bydd angen Gorchymyn i newid cyfyngiad cyflymder.

Llythyr (27/11/2019) oddi wrth Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau yn rhoi gwybod maent am drefnu asesiad o'r safle. Rhoddwyd gwybod i Seren Fach ac i Rhun Jones.

Llythyr (28/11/2019) oddi wrth Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau yn rhoi gwybod bydd Swyddog yn ymweld â'r Seren Fach pryd fydd safle yn cael ei asesu.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau beth yw'r diweddaraf ynglyn symud yr arwydd 30mya. Penderfynwyd hefyd i Rhun Prys Jones tynnu lluniau o'r traffig sydd yn defnyddio'r ffordd. Bydd rhaid disgwyl i Pont ar Ddibyn cael ei hail agor cyn cael lluniau.

Eitem 9.b.5. Llythyr ateb (25/11/2019) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo yn rhoi gwybod mae gwaith cynnal a chadw wedi cael ei wneud ar Tanybryn, Rhydymain ac mae'n debygol bydd hysbysiad yn y papurau newydd yn y dyfodol agos ar gyfer y daliad.

Cafwyd wybod mae fwy o waith angen ei wneud yn Tanybryn..

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 21, 2020

Eitem 9.b.4. Llythyr (27/11/2019) oddi wrth Adran Rheolaeth Adeiladau yn rhoi gwybod bydd perchennog Tŷ Siop, Llanfachreth yn trwsio'r to sydd gyda llechi ar fin llithro i'r ffordd – Adran Rheolaeth Adeiladau.

Eitem 5. Eitem 6.ch. Llythyr (29/11/2019) oddi wrth Arweinydd Tîm Priffyrdd, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod caiff y Cyngor Cymuned wrthwynebu'r cynllun 40mya pan fydd y gorchymyn yn ei hysbysu'n ffurfiol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau (ar e-bost).

Penderfynwyd cael wybodaeth gan y Prif Athro, Mrs Olwen Jones, ar nifer o blant, a'u hoed, bydd bws yn ei godi.

## **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn holi os oes binniau halen angen eu llenwi.

Rhodddwyd gwybod iddynt (27/11/2019) mae angen llenwi bin halen sydd wrth Rhedyncochion.

b. Llythyr (25/11/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith gosod pyst cyfeirbwyntio ar Lwybr Ceffyl wrth Tyddyn Mawr.

c. Llythyr (2/12/2019) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Rhybudd Argyfwng Cau Ffordd B4416 oherwydd iechyd a diogelwch i'r cyhoedd gan strwythur Pont ar Ddibyn, Brithdir wedi ei difrodi yn dilyn damwain. Disgwylir bydd y gwaith wedi ei gwblhau o fewn 21 diwrnod. Amgáu mae map yn dangos ffordd arall i'w defnyddio.

ch. Llythyr (17/12/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith atgyweirio yn cael ei wneud i Pont ar Ddibyn yn dilyn damwain.

d. Llythyr (3/1/2020) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i Arddwest Palas Buckingham ar 12 Mai, neu 19 Mai, neu 27 Mai. Os mae diddordeb maent angen gwybod cyn 31/1/2020.

dd. Llythyr (12/12/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Ionawr 8, 2020 am 7.00yh. Bydd Nia Wyn Hughes o Gronfa Loteri Gymunedol yn bresennol yn rhoi gwybodaeth am grantiau i gynghorau cymunedol. Amgáu mae Agenda, Cofnodion cyfarfod Hydref 16, 2019, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Maes y Sioe Amaethyddol ar Fedi 13, 2019.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 21, 2020

e. Llythyr (21/1/2020) oddi wrth Mabon ap Gwynfor, Plaid Cymru yn diweddarau ynghylch yr ymdrech i sefydlu canolfan ddeiaagnostig canser yng Ngwynedd. Mae rhan fwyaf o'r cynghorau tref a chymuned wedi dangos cefnogaeth. Mae disgwyl am adroddiad gan y Llywodraeth ym mis Mai ar y mater.

### **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (22/11/2019) yn ymwneud â Tai Teg – Cofrestr Tai Fforddiadwy. Cofrestr tai fforddiadwy ar-lein yw Tai Teg sy'n cynnig cartref fforddiadwy i bobl leol am bris llai na gwerth y farchnad. Nôd y gofrestr yw casglu gwybodaeth am eiddo fforddiadwy yng ngogledd Cymru. Mae'r wybodaeth i'r cyhoedd ar [www.taiteg.org.uk](http://www.taiteg.org.uk) Amgáu mae taflenni yn rhoi gwahanol gynlluniau sydd ar gael.

### **8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (21/11/2019) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2020 / 2021. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 24, 2020.

Praesept 2018 /2019 - £6,000.00. Praesept 2019 /2020 - £6,000.00.

I fyny i Mawrth 31, 2013 roedd y praesept yn £7,500. Ond gostyngwyd y swm i £6,000 yn Ebrill 1, 2013 oherwydd nid oedd toiledau Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain mwyach ar fod.

Anfonwyd manylion o'r Praesept am 2020 / 2021 i'r aelodau.

Penderfynwyd codi'r praesept i £9,000.00. Mae hyn oherwydd costau ychwanegol yn enwedig llenwi biniau halen, codiad cyflog y Clerc a thal i'r aelodau (os maent am ei dderbyn), a hefyd ychydig iawn o arian fydd i gario ymlaen i'r flwyddyn 2020-2021.

b. Derbyniwyd (12/11/2019) £490.30, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau.

c. Llythyr (9/12/2019) oddi wrth Adran Eisteddfod yr Urdd, Llanuwchllyn. Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych yn Ninbych ar Fai 25-23, 2020. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2020-21. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 o dan adran 137(1) ac (3) £8.32, am bob etholwr, at ddibenion

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 21, 2020

elusenol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.32 x 603 = £5,016.96.

d. Llythyr (17/12/2019) oddi wrth Cwmni Theatr Bara Caws cyf, Caernarfon. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

dd. Bil (5/1.2020) am £192.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2020.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Llythyr (6/1/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwefror.

f. Llythyr (8/1/2020) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ff. Llythyr (21/1/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau canllaw syml i gefnogi Cyngorau gyda'r prif dasgau ariannol y mae angen eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Tachwedd 2019: £1,140.08

h. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2019: £4,853.70.

i. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Rhagfyr 2019: £1,140.27.

l. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2019: £4,729.26.

## **9. Adroddiad Cynghorvdd Peredur Jenkins**

a. Cafodd Peredur Jenkins a Henry Edwards cyfarfod (25/11/2019) gyda Mrs Nansi Thirsk, Guthrie Jones & Jones yn holi peth oedd diweddaraf ynglŷn â maes parcio, cae chwarae, cyfansoddiad y Cyngor a chofrestru tir i'r Neuadd Bentref Llanfachreth. Mae'n disgwyl gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Priffyrdd i'r lori graeanu halen gwneud y gwaith yn gywir os mae'n cael ei ddefnyddio ar hyd ffyrdd gwledig.

c. Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu:

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 21, 2020

1. newid trefniadau i gasglu biniau.
2. newid trefniadau i sgubo a glanhau cwteri.

Penderfynwyd gwahodd Mr A.W. Williams, Peirianydd Ardal Meirionnydd, i ein cyfarfod mis Mai i egluro'r newidiadau i sgubo a glanhau cwteri.

**10. Unrhyw fater arall**

Nid oedd mater arall.

Llofnod:

Dyddiad: